

W. J. Edwards yn manylu ar gyfraniad John Lloyd James 'Clwydwenfro'

Gyda'r Brifwyl yn Nhyddewi eleni mae'n werth dwyn ar gof gyfraniad goludog un o feibion disglair Sir Benfro, nid yn unig fel gweinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghymru a Lloegr, ond fel hanesydd ac ysgrifwr gyda'r mwyaf diwyd yn ei genhedlaeth. Ganed Clwydwenfro fel y gelwid ef gan bawb, ym mhlwyf Llangan, Sir Benfro ym 1835, ac wedi iddo golli'i rieni fe'i maged gan ei dad-cu yn Llanglydwen a chafodd ei ddwy chwaer ac yntau gychwyn da ar aelwyd John Lloyd, tad Esther, ei fam yn y Berllandawel.

Abel Lloyd, Clungarw oedd tad y tad-cu ac, ymhlith ei frodyr a fu'n weinidogion amlwg yr oedd Dafydd a Rees. Pan oedd Dafydd yn pregethu ym Mhencader y penderfynodd y llanc, Thomas Phillips, fynd i'r weinidogaeth a daeth yn enwog fel y Dr Phillips, Pennaeth Academi Neuadd-lwyd, lle'r hyfforddwyd cenedlaethau o ddarpar weinidogion, amryw ohonynt ymhlith arloeswyr y gwaith cenhadol ym Madagascar a manau eraill.


Ymhlith yr ysgrifau a sgrifennodd Clwydwenfro i'r *Beirniad* yn chwech a saithdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y mae un diddorol am Rees Llwyd, brawd Abel a Dafydd. Ar ôl ei ordeinio ym 1795 ymfudodd gyda'i wraig a chwech o blant i Ebsenburg, America a sefydlu eglwys Gymraeg yno yng nghwmni 13 Annibynnwr ac 11 o Fethodistiaid. Symudodd wedyn i Paddy's Run, Ohio, lle bu dau o feibion enwog Llanbryn-mair, George Roberts a William Tibbott, yn cydweinidogaethu gydag ef. Yno y bu Rees farw ym 1838 yn bedwar ugain oed ac y mae'i ddisgynyddion wedi bod yn amlwg yn y byd masnachol a gwleidyddol.

Gofalodd y tad-cu fod Clwydwenfro yn cael addysg dda ac fe'i hanfonodd i Ysgol Glandŵr at yr enwog John Davies, 'Siôn Gymro', yr ysgrifennwyd cofiant iddo gan Ben Davies, 1938. Rhagorodd fel cyfieithydd ac esboniwr a byddai'n darlithio ar Hebraeg, Groeg, Aramaeg, Syrïeg, Lladin, Cymraeg a Saesneg i'w fyfyrwyr. Ar ôl cyfnod wedyn yn Ysgol Llanboidy gyda William Davies, Rhydyceisiaid, aeth Clwydwenfro, yn ddeunaw oed, i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin ac, ar ôl bod yno am bedair blynedd, ordeiniwyd ef yn Llansantffraid-ar-Elai ym 1859 gan ychwanegu'r Eglwys Newydd, Caerdydd at ei ofalaeth wedyn. Ymhen deng mlynedd symudodd i Eglwys Saesneg Ivor, Dowlais. Ffarweliodd â Chymru ym 1875 gan fyw gweddill ei ddyddiau am bedair blynedd a deugain, i ddechrau yn Moreton-in-Marsh, 1875-9, ac yn March, Sir Gaergrawnt hyd ei farw ar 17 Ebrill 1919.

Er iddo ddod yn adnabyddus fel pregethwr a bugail cymeradwy ac iddo ymroi i wasanaethu byd addysg a bod yn arweinydd amlwg gyda'r Rhyddfrydwyr, fel gŵr prysur ei ysgrifbin yn cyfrannu'n helaeth i gylchgronau megis *Y Tywysydd*, *Y Diwygiwr*, *Cenad Hedd a'r Beirniad*, ac yn ysgrifennu llyfrau y cofiwn amdano yn y cylchgrawn hwn. Ar ôl iddo gyhoeddi'i stori 'Edwin Powell' yn *Seren Cymru*, 1856-7, daeth yn enw adnabyddus. Bu'n golygu'r newyddiadur wythnosol, *Cyfaill y Werin* a gychwynnwyd gan un Mr. Jenkins, fferylllydd yng Nghastellnewydd Emllyn ym 1862, a bu'n gofalu am golofn farddoniaeth *Y Tŵr*, papur Josiah Thomas Jones, Aberdâr

a sefydlwyd ym 1870 a'i gyhoeddi bob pthefnos.

O droi i Fynegai Huw Walters, *Yr Adolygydd a'r Beirniad*: Eu Cynnwys a'u Cyfranwyr, gwelir cyfeiriad at ddeg cyfraniad o eiddo Clwydwenfro yn *Y Beirniad*. Y llith cyntaf ym 1863 pan oedd yn



'Clwydwenfro' - John Lloyd James 1835-1919.

ei ofalaeth gyntaf ar gyron Caerdydd oedd 'Cofnodion bywgraffyddol am Mr John G. Davies, mab y Parch. J. Davies (Siôn Gymro), Glandŵr, Swydd Benfro. Mynd a ni yn ôl i 61 O.C. a wna yn ei gerdd hirfaith 'Dinistr y Derwyddon', 1864, ac mewn dau rifyn y flwyddyn wedyn, sy'n ymestyn i 23 tudalen, ei bwnc oedd 'Prawf, dienyddiad, a chladdediogaeth Siarl y Cyntaf'. Ym 1866 ceir ei enw a'r Eglwys Newydd ar odre 'Gyrfa'r bugail: galargerdd i'r diweddar Barch. John Evans, Hebron, Sir Benfro'. Sgrifennodd hefyd am 'John Oliver', a 'George Davies', Plas Llanglydwen, a cheir rhagor o farddoniaeth ganddo: cerdd fer: 'Yr ochr hyn a'r ochr draw', a cherdd ddeg tudalen 'Madog'.

Gellir dweud mai maes arbennig Clwydwenfro oedd hen hanesion lleol ac eglwysig a phrotreadu hen gymeriadau megis 'Siams Dafydd'. Wrth ymateb yn y golofn 'At Ohebwy'r yn ei gylchgrawn *Cymru* ym 1912 a 1918, y mae O. M. Edwards yn dweud, 'Yr unig gyfieithiad o "Lost Chord" Adelaide Anne Proctor y medraf ei gofio ar hyn o bryd yw cyfieithiad Clwydwenfro yn *Yr Ardd* ar 15 Chwefror 1864. Cyhoeddiad bychan misol oedd *Yr Ardd* dan olygiaeth Dewi Ogwen. Fel hyn y mae'r ddwy linell yn y cyfieithiad tlws hwnnw: 'A chrynnod i bellter diderfyn / Fel pe na ddistewai byth mwy'. Yn *Cymru*, 1905, ceir cerdd ddeuddeg pennill o wyth llinell yr un gan Clwydwenfro, March, Cambs i 'Y Maen Llwyd', a dyma'r cyflwyniad sydd iddi: 'Mewn maes a elwir Parc-maen-llwyd, perthynol i Berllandawel, Llanglydwen, mae maen hynafol, a pheth olion celf arno, yn brawf mai maen coffadwriaethol ydyw, perthynol i'r hen oesau. Cartref boreol yr awdur yw y lle uchod.'

Dau brif waith Clwydwenfro oedd *Hanes Eglwys Glandŵr*, 1902, lle y dywed ar y ddalen gyntaf ei fod yn 'Awdur "Pryddest Eliseus a'r Sunamees", "Hanes Siams Dafydd", "Habakkuk Crabb", Cyfieithydd "Holwyddoreg yr Ymneillduwyr" (dau argraffiad) a "Hanes Cymanfaoedd yr Annibynwyr"'. Cyhoeddwyd yr olaf mewn

pum rhan ym 1867-9 pan oedd yn weinidog ifanc a, phan oeddwn yn ymchwilio ar gyfer fy nghyfrol Cymanfa Bregethu Annibynwyr Meirion, 1997, bu'r gyfrol o waith Clwydwenfro o gryn gymorth imi. Mae'n rhaid ei fod yn ymchwilydd wrth reddf gan ei fod wedi cyflwyno hanes manwl inni. Gwn fod gan y diweddar Barch. Ddr R. Tudur Jones, Prif Hanesydd Annibyniaeth gryn feddwl o'r gyfrol.

O gofio i Clwydwenfro fod yn alltud am bedair blynedd a deugain, yn gweinidogaethu am y rhan fwyaf o'r cyfnod yn March, Sir Gaergrawnt, mae'n destun rhyfeddod ei fod (fel llu o rai tebyg iddo) wedi gallu cyfrannu mor gyson i gylchgrawn a llyfr Cymraeg. Roedd hynny siwr o fod yn anodd ac yntau bellter ffordd

HANES EGLWYS GLANDŴR

O'R CYCHWYNIAD.

YN NGHYDA

Hanes Dechreuol yr Eglwys a Gychwynnodd.

GAN Y PARCH.

J. LLOYD JAMES (Clwydwenfro),

MARCH, SWYDD GAERGRAWNT.

Awdur "Pryddest Eliseus a'r Sunamees," "Hanes Cymanfaoedd yr Annibynwyr," "Hanes Siams Dafydd," "Cyfieithydd "Holwyddoreg yr Ymneillduwyr," (dau Argraffiad), "Habakkuk Crabb," &c.

Pris 2s. mewn Clawr Papyr. a 2s. 6c. mewn Llan.

MERTHYR TYDFIL:

ARGRAFFWYD GAN JOSEPH WILLIAMS, SWYDDFA'R "FEST." 1902.

Wyneb-ddalen Hanes Eglwys Glandŵr.

oddi wrth y llawysgrifau a'r llyfrau. Gŵr mawr ei gyfraniad oedd John Lloyd James 'Clwydwenfro', a da cael gwrogaethu iddo pan mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Sir Benfro.

Ar Werth

Set gyflawn o *Drafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* rhwng 1939 a 1976 (37 rhifyn). Cysyllter â (01766) 513620.

Tregaron, historical and antiquarian by D. C. Rees. 1936 (gyda llawysgrif a thoriadau): £60.

Llanarth, Henfynyw, Llanllwchiaiarn a Llandysilio-gogo gan D. S. Davies. Ail arg. 1930: £12.

Llanegwad by John Brunner. 1937: £5.

The Beauties of Pembrokeshire by F. L.

Lowther. Newtown, Welsh Outlook Press n.d.: £5.

Methodistiaeth Trefeglwys 1754-1814 gan

Richard Bennett. Llanidloes (1932): £10.

Welsh Musical Instruments (with plate),

Iorwerth C. Peate. Reprinted from MAN 1947.: £2.

Blodau'r Ffair, rhifau 1-36, gyda rhai bylchau:

Tysorau'r Tannau, dwsin o geinciau dewisol, Dewi Mai o Feirion (1935) ac *Allwedd y Tannau*, rhif 7, 1948: £2.

Cysyllter â Mari Ellis ar (01970) 617171.